



## Swyddog Ailgylchu, Cydymffurfiaeth a Data

Cyflog: £31,099 - £33,820

1 x 22.2 awr yr wythnos

2 x 37 awr yr wythnos

Codiad Cyflog 2023 yn yr Arfaeth

Mae Gwasanaethau Stryd a Chludiant yn chwarae rôl allweddol o ran diogelu ein hamgylchedd, lleihau gwastraff a gwneud y mwyaf o ailgylchu. Fel gwasanaeth allweddol, mae gennym werthoedd craidd, sef Diogelwch, Gwaith Tîm, Atebolrwydd a Pharch, i gyflawni rhagoriaeth gwasanaeth ar gyfer preswylwyr Sir y Fflint.

Ydych chi'n frwdfrydig dros yr Amgylchedd? Allwch chi ein helpu i hyrwyddo gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu'r Cyngor? Os felly, rydym yn chwilio am Swyddogion Ailgylchu, Cydymffurfiaeth a Data i ymuno â'n tîm Strategaeth Gwastraff o fewn y Gwasanaethau Rheoleiddio. Bydd y rolau cyffrous hyn yn allweddol wrth gyflwyno mentrau a phrosiectau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer gwella'r amgylchedd lleol a chyflawni'r cynllun strategol hirdymor o fewn y Sir.

Byddwch yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth a rheoleiddio gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu'r Cyngor, rheoli data, datblygu a chynngori ar bolisiau, gyda'r nod o gyrraedd targedau ailgylchu statudol a chyflawni mentrau economi gylchol, yn ogystal â monitro caffael a rheoli cysylltiadau contractau ailgylchu a gwastraff.

Bydd eich gwaith yn cynnwys creu cynnwys ar gyfer ein platfformau cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan, ymateb i ymholiadau cwsmeriaid a chysylltu ag ystod o bartneriaid i wella ein gwasanaethau. Yn ogystal â chynnal ymweliadau o ddrws i ddrws, mynychu digwyddiadau a sioeau teithiol, byddwch yn cefnogi ein timau rheng flaen gyda deunydd ymgyrchu a hyfforddiant. Mae'n ofynnol hefyd i ddeiliad y swydd ymgymryd â rhywfaint o waith y tu allan i oriau ac ar benwythnosau yn ôl yr angen.

I gael trafodaeth anffurfiol cysylltwch â: Ruth Tulley

Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio

[ruth.tulley@siryfflint.gov.uk](mailto:ruth.tulley@siryfflint.gov.uk)



Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu  
i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel  
Together we can all help to  
keep **Flintshire** safe

CYNGOR  
**Sir y Fflint**  
**Flintshire**  
COUNTY COUNCIL